# Bob blwyddyn mae cannoedd o bobl yn herio'r rheilffordd yn anfwriadol ac yn colli.

Byddwch yn ymwybodol o'r perygl na allwch ei weld. Cadwch oddi ar y trac a thalwch sylw i unrhyw arwyddion diogelwch.

Ydi'n werth peryglu'ch bywyd?

## Cysylltu â ni

@networkrail

www.networkrail.co.uk

03457 11 41 41

**Mae pawb yn colli pan gamwch ar y trac**

You vs. Train

NetworkRail

# Mae pawb yn colli pan gamwch ar y trac.



**Mae pawb yn colli pan gamwch ar y trac**

You vs. Train

**Mae'r rheilffordd yn llawn peryglon cudd. Os na chewch eich taro gan drên annisgwyl, cewch eich taro gan y cerrynt angheuol yn y cledrau a'r llinellau pŵer.**

Yr unig ffordd o osgoi perygl yw cadw oddi ar y trac.

# Holi ac ateb

**1. Pa mor bwerus yw llinellau pŵer uwchben y rheilffordd?**

A. 100 gwaith yn fwy na'r cyflenwad pŵer mewn cartref arferol

B. 10 gwaith yn fwy na'r cyflenwad pŵer mewn cartref arferol

C. Yr un peth â'r cyflenwad pŵer mewn cartref arferol.

Ateb: A. 25000 o foltiau yw'r pŵer yn y llinellau uwchben, sef 100 gwaith yn fwy na'r cyflenwad pŵer mewn cartref arferol.

**2. Pryd mae'r llinellau pŵer uwchben a'r cledrau dargludo wedi'u diffodd?**

A. Ar ôl i'r trên fynd heibio.

B. Dros nos

C. Byth – mae'r trydan yn llifo trwy'r amser.

Ateb: C. Mae trydan yn llifo trwy'r drydedd gledren a'r llinellau uwchben bob amser ac nid ydynt byth yn cael eu diffodd.

**3. Gall y trydan mewn llinellau pŵer uwchben 'neidio' – ond pa mor bell?**

A. 2 fetr

B. 3 metr

C. 5 metr.

Ateb: B. Nid oes rhaid ichi gyffwrdd y llinellau uwchben i gael eich trydanu. Os ydych chi'n hedfan neu hongian pethau o bontydd yn ymyl y llinellau pŵer uwchben, gall y trydan arcio fel mellten neu neidio hyd at dri metr.

**4. Beth yw'r cyflymder mwyaf y gall trên ei gyrraedd?**

A. 70mya

B. 125mya

C. 95mya.

Ateb: B. Ni allwch redeg yn gynt na thrên. Hyd yn oed pe gallech, ni fyddech yn ei glywed yn dod, gan fod trenau heddiw bron yn gwbl ddistaw wrth gyrraedd cyflymder o 125mya. Ac maent yn rhedeg 24 awr y dydd.